Taith
4e

Y Cylch Tân

Dechrau a Diwedd:. . . . . Canolfan Croeso Aberteifi
Parcio: . . . . . Y tu cefn i Ganolfan Croeso Aberteifi neu faes parcio glan yr afon
Amcangyfrif o'r pellter: . . . . . **23 milltir**
Amser a ganiateir: . . . . . **3½ - 4½ awr**
I gwblhau'r daith heb stopio, gan ddibynnu ar eich ffitrwydd. Mae rhai rhiwiau serth iawn ar y llwybr.
Trafnidiaeth gyhoeddus agosaf: *Bws:* Aberteifi
Rheilffordd: Caerfyrddin
Cydrannau ac Offer Beiciau agosaf: New Image Cycles, Aberteifi. 01239 621275


Aberteifi

Gan ddechrau o'r Ganolfan Croeso yn Aberteifi, dilynwch y llwybr allan o'r dref, a mwynhau cefn gwlad yng nghyffiniau Aberteifi. Wrth i'r llwybr ddod â chi'n ôl at yr arfordir, fe ddewch chi at yr Amgueddfa Tân Diwydiannol yng Nghastell Pridd, sy'n bwrw golwg dros hanes peiriannau diwydiannol mawr ac sydd â nifer o enghreifftiau difyr iawn i'w gweld.

Yna mae'r llwybr yn dod at draeth Tresaith - traeth sydd wedi ennill sawl gwobr - un o bentrefi glan môr mwyaf poblogaidd Ceredigion - lle allwch chi brynu lluniaeth tra'n mwynhau golygfeydd godidog o Fae Ceredigion. Sylwer nad yw'r llwybr sydd wedi ei arwyddo'n mynd yr holl ffordd i lawr i draeth Tresaith. Os byddwch am seiclo i lawr i'r traeth cofiwch fod y ffordd yn gul ac yn serth i feiciau.

O Dresaith ewch yn eich blaenau i gymuned Aberporth, lle mae traeth arobryn arall ynghyd â thafarnau a siopau. Sylwch eto nad yw'r llwybr sydd wedi ei arwyddo'n mynd i lawr at lan y môr yn Aberporth ond mae'n wir yn werth mynd yno.

Os gwyrwch chi ryw ychydig bach oddi ar y llwybr cewch gyfle arall i ymweld â Chanolfan Fforest Glaw a Gloÿnnod Byw Felinwynt, fel arall mae'r llwybr yn mynd rhagddo i gyfeiriad Aberteifi gan fynd heibio i Ganolfan Pob Tirwedd y Gorllewin Gwyllt fel y nodir yn llwybr 4d.


Tresaith

Y Cylch Tân

Canolfan Croeso Aberteifi *(ar agor drwy'r flwyddyn)*
Theatr Mwldan, Aberteifi, SA43 2JY, Ffôn: 01239 613230, Email: CardiganTIC@Ceredigion.gov.uk